

Paid â chau'r afon

“Pwy yw'r Hollalluog i ni ei wasanaethu?” (adn. 15)

Beth am ddarllen Job 21:1–21 ac yna myfyrio

Ddoe fe ddaru ni ddweud mai'r peth cyntaf sydd yn rhaid i ni ei wneud wrth fyw fel rhai sy'n cymryd rhan yn stori fawr Duw ydy derbyn yr anorfod. Os ydym ni'n mynnu y dylem ni fel Cristnogion gael ein heithrio rhag effeithiau'r Cwmp, fe fydd ein hagwedd yn ein rhoi mewn lle sydd yn groes i fwriadau Duw ar gyfer ein bywydau. Rhaid inni dderbyn popeth sydd yn digwydd inni gyda gras a heb warafun. All Duw ddim gweithio gwaith y nef mewn calon sydd yn gyndyn.

Cymerwch, er enghraifft, pan fydd rhywun mewn profedigaeth. Mae rhai pobl y gwn i amdany'n nhw wedi profi colledion enbyd a heb ddod i delerau erioed â hynny yn eu calonnau. Maen nhw'n derbyn na allan nhw hawlio'r un annwyl yn ôl, eto mae chwerwedd yn llechu y tu mewn iddyn nhw. Maen nhw'n gwarafun hapusrwydd i bobl eraill ac yn sôn gyda chwerwedd am yr iechyd da yr ymddengys mae drwgweithredwyr yn ei fwynhau. Yn eu calonnau maen nhw'n wrthwynebus i Dduw. Yn yr un modd, fe welwn ni o'r darn o'n blaenau heddiw bod Job yn cael ei adegau o fod yn wrthwynebus i Dduw. Yn ddiweddarach, fodd bynnag, fe ddaeth i weld ffolineb ei sefyllfa.

Fe gollodd Dr Barnardo, sefydlydd y cartrefi plant Barnardo yma ym Mhrydain, ei fab bach naw oed o diptheria. Ddaru o gyhuddo'r nef a phrotestio wrth yr Hollalluog? Na. Ond dywedodd: “Wrth i fy hogyn bach annwyl orwedd yn fy mreichiau'n methu â chael ei wynt ac wrth imi syllu i mewn i'r wyneb bach nychlyd yn graddol oeri gan farwolaeth, fe ymddangosodd cannoedd o wynebau plant bach eraill imi trwy ei un yntau. Fe benderfynais i eto y byddwn i trwy gymorth gras Duw yn cysegro fy hunan o'r newydd i'r gwaith bendigedig o achub rhai bychain diamddiffyn rhag enbydrwydd bywyd diymgeledd a bywyd o bechod.”

Wyt ti'n dal dig neu â malais yn dy galon? Meiddia ei ildio yn awr. Efallai fod gras yn llifio fel yr afon, ond bydd gwenwyn yn cau yr afon honno.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 15:11–32; 10:38–42;

Ioan 11:20–27

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth gollodd y brawd hynaf oherwydd y gwenwyn ynddo?
2. Sut ddaru Martha fanteisio o ildio'i dicter?

Gweddi

O Dduw, maddau imi os yw dicter yn cau afon dy ras di. Helpa fi i ildio pob gwenwyn i ti yn y fan yma nawr er mwyn i ras lifo'n ddi-rwystr trwy fy nghalon i. Yn enw Iesu y gweddiâf. Amen.